**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL EUR-02-02(p3)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 20 Mawrth 2002 |
| **Amser** | 9:30am |
| **Lleoliad** | Ystafell Bwyllgora 3/4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl** | Goblygiadau'r Ewro |

**Diben**

1. Rhoi amlinelliad o'r camau sy'n cael eu cymryd i ymdrin â'r goblygiadau i Gymru yn dilyn lansio'r arian sengl ar 1 Ionawr 2002.

**Argymhelliad**

2. Dylai'r Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad.

**Cefndir**

3. Yn ei gyfarfod diwethaf ar 13 Chwefror 2002, gwnaeth y Pwyllgor gais am bapur ar y goblygiadau i Gymru yn dilyn cyflwyno'r arian sengl.

4. Mae'r papur amgaeedig yn ystyried rhai o'r goblygiadau i Gymru o ganlyniad i gyflwyno arian yr Ewro mewn deuddeg allan o'r pymtheg aelod-wladwriaeth ar 1 Ionawr 2002. Mae'n edrych ar waith Tasglu'r Ewro ers ei sefydlu ym 1998, ac ystyria'r posibilrwydd o ddarparu gwybodaeth a chanllawiau ymarferol cyson ynghylch yr Ewro i fusnesau yng Nghymru. Noda hefyd y sefyllfa ddiweddaraf o ran paratoadau'r sector cyhoeddus.

**Cydymffurfio**

5. Nid oes materion o ran priodoldeb ac uniondeb. Mae'r Tasglu'n gweithio o fewn darpariaethau Ddeddf Datblygu Diwydiannol 1982, a throsglwyddwyd ei swyddogaethau i'r Cynulliad a'u dirprwyo i'r Prif Weinidog. Cysylltwyd eisoes â Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad, ac mae'n fodlon â'r agweddau cydymffurfio.

**Goblygiadau ariannol**

6. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i’r Cynulliad yn deillio o’r materion a drafodir yn yr adroddiad hwn.

**Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol**